# Cyfarwyddwr Anweithredol - Cyllid

## Partneriaeth Actif Canolbarth y De

**Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr**

Dyddiad Cau: Hanner nos 11 Mawrth 2026

Dyddiad Cyfweld: 1 Ebrill 2026



acorn by SYNERGIE

CENTRAL SOUTH ACTIVE PARTNERSHIP | PARTNERIAETH ACTIF CANOLBARTH Y DE

# Neges gan Gadeirydd Partneriaeth Actif Canolbarth y De

**Annwyl Ymgeisydd,**

Diolch am ddangos diddordeb ym Mhartneriaeth Actif Canolbarth y De (PACD). Sefydlwyd Partneriaeth Actif Canolbarth y De yn 2024 mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru er mwyn helpu rhagor o bobl ar hyd a lled ein rhanbarth i fwynhau a chael mynediad at weithgarwch corfforol. Mae ein cenhadaeth yn glir:

"Creu newid sylweddol yn iechyd a lles ein cymunedau lleol drwy gydweithio ar draws y rhanbarth er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella lefelau gweithgarwch."

Mae'r newid i Bartneriaethau Rhanbarthol yn rhoi cyfle unigryw i ni fynd i'r afael â heriau lleol yn ardaloedd Rhondda Cynon Taf, Merthyr, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, a Chaerdydd. Byddwn yn defnyddio dull rhanbarthol cydweithredol o ddiwallu anghenion lleol er mwyn i ni allu lleihau anghydraddoldebau mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae PACD yn gweithredu fel cwmni cyfyngedig drwy warant, dan fframwaith llywodraethu cadarn a thryloyw. Wrth graidd y strwythur hwn mae Bwrdd Cyfarwyddwyr medrus, cynhwysol ac amrywiol a fydd yn gweithio gyda'n partneriaid er mwyn llywio a gweithredu ein cyfeiriad strategol.

Mae ein Bwrdd yn cynnwys gwirfoddolwyr angerddol sy'n cyfrannu eu hamser, profiad, ac arbenigedd i'n helpu i gyflawni ein hamcanion. Er mwyn llywodraethu'n effeithiol a pharhau'n flaengar, rydym yn gwerthfawrogi safbwyntiau amrywiol ac ymrwymiad i gynhwysiant. Mae'n hanfodol bod gennym safbwyntiau amrywiol er mwyn llywodraethu'n effeithiol, a sicrhau ein bod yn parhau'n sefydliad blaengar, cynhwysol sydd wedi ymrwymo i gyflawni ein gweledigaeth.

Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio Cyfarwyddwr Anweithredol â chyfrifoldeb am Gyllid. Rydym yn croesawu ymgeiswyr sydd:


- Yn hyderus i ofyn cwestiynau sy'n dangos dealltwriaeth drylwyr ac yn hybu cynnydd
- Yn meddu ar brofiad priodol
- Yn dod â safbwyntiau amrywiol ac ymrwymiad cryf i degwch, cynhwysiant, ac amrywiaeth.

Os ydych yn angerddol ynglŷn â gwneud symud yn rhan o fywyd bob dydd pobl, yn ymrwymedig i gynhwysiant, ac yn awyddus i wneud gwahaniaeth yn ein rhanbarth — ac os ydych yn barod i hyrwyddo, herio, a chefnogi ein gwaith — byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Cofion cynnes,

**Yr Athro Leigh Robinson**

**Cadeirydd, Partneriaeth Actif Canolbarth y De**



© Acorn by Synergie

# Am Bartneriaeth Actif Canolbarth y De

Mae Partneriaeth Actif Canolbarth y De (PACD) yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar hyd a lled y rhanbarth (Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerdydd a Bro Morgannwg).

Credwn y gall symud ddod â manteision pellgyrhaeddol i bobl a chymunedau. I'n rhanbarth ni mae'n rym pwerus sy'n hybu llesiant, cysylltiad a chyfle.

Er hyn, mae llawer o bobl ledled y rhanbarth nad ydynt yn profi'r manteision hyn ac mae rhai grwpiau yn llawer llai tebygol o brofi manteision symud na grwpiau eraill.


Dyna pam rydym yn gwneud pethau'n wahanol. Rydym yn gwneud mwy na newid rhaglenni neu brosiectau. Rydym yn ail-lywio'r ffordd y mae systemau'n gweithio, sut mae partneriaid yn cydweithio a sut mae stori symud yn cael ei hadrodd. Rydym yn adeiladu ar lwyddiant ac yn archwilio syniadau newydd. Drwy weithio mewn ffyrdd newydd a herio hen fodelau rydym yn gwneud symud yn rhan o fywyd bob dydd, i fwy o bobl, mewn mwy o leoedd.

Mae ein huchelgais yn syml ond yn feiddgar: gwneud symud yn rhan o fywyd bob dydd pobl a chreu rhanbarth hapusach, iachach.

**Beth yw ein hamcanion strategol?**

Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid er mwyn diffinio amcanion strategol wrth i ni ddatblygu ein strategaeth. Yn y cyfamser rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu:

- Cymdeithasau Actif – Normau ac Agweddau Cymdeithasol
- Amgylcheddau Actif – Gofod a Llefydd
- Pobl Actif – Rhaglenni a Chyfleoedd
- Systemau Actif – Galluogwyr Llywodraethu a Pholisi




© Acorn by Synergie

# Cyfrifoldebau Cyffredinol Cyfarwyddwr Anweithredol:



- Darparu arweinyddiaeth strategol effeithlon ac effeithiol i Bartneriaeth Actif Canolbarth y De (PACD).
- Cynnal a gweithio tuag at weledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd, ymddygiadau, ac amcanion PACD a sicrhau bod y sefydliad yn parhau i weithio tuag at y rhain.
- Manteisio i'r eithaf ar rwydweithiau er mwyn cefnogi twf, trefn a datblygu busnes.
- Gweithredu er budd PACD mewn cysylltiad ag asedau, eiddo, rhwymedigaethau statudol a gofynion rheoli fel yr amlinellwyd yn Llawlyfr y Bwrdd.
- Cytuno ar restr o faterion a ddaliwyd yn ôl yn benodol ar gyfer penderfyniadau mawr gan Fwrdd y Bartneriaeth.
- Sicrhau bod PACD yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a llywodraethol perthnasol.
- Hybu dulliau darbodus ac effeithiol o reoli adnoddau'r sefydliad (ariannol a dynol).
- Sicrhau bod strategaethau a pholisïau yn eu lle a fydd yn cefnogi amcanion PACD.
- Datblygu a monitro strategaethau rheoli risg effeithiol ar gyfer PACD.
- Datblygu a monitro mesurau rheoli a systemau mewnol sy'n dryloyw ac yn atebol i randdeiliaid.
- Creu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol a chynhyrchiol gyda rhanddeiliaid.
- Gweithredu yn onest bob amser a hybu buddiannau PACD.
- Hyrwyddo gwaith PACD a gweithredu fel llefarydd i PACD os bydd angen.

© Acorn by Synergie

# Cyfrifoldebau Ychwanegol Cyfarwyddwr Anweithredol (Cyllid):

**Yn ogystal â rolau a chyfrifoldebau cyffredinol Cyfarwyddwr Anweithredol, bydd gan y Cyfarwyddwr Anweithredol sydd â Chyfrifoldeb Ariannol y cyfrifoldebau a ganlyn:**

- Darparu cyfeiriad ariannol strategol er mwyn cynorthwyo PACD i gyflawni ei amcanion strategol.
- Darparu cyfeiriad strategol er mwyn sicrhau bod PACD yn gadarn o safbwynt ariannol ac yn gynaliadwy.
- Goruchwylio rheoli risg ariannol, gan nodi, deall, a rheoli ei risgiau ariannol.
- Hyrwyddo twf cynaliadwy a chreu gwerth drwy ddarparu mewnwelediad ariannol ar strategaethau buddsoddi er mwyn cefnogi amcanion strategol.
- Sicrhau bod PACD yn cydymffurfio'n llwyr ag unrhyw rwymedigaethau statudol a rheoleiddiol.
- Sicrhau bod PACD yn cyrraedd safonau uchel o ran llywodraethu ariannol a phenderfyniadau tryloyw.
- Bod yn llofnodwr awdurdodedig i Fwrdd y Bartneriaeth.



# Manyleb y Person



**Hanfodol**

- Y gallu i weithredu â phroffesiynoldeb a gonestrwydd.
- Ymrwymiad i degwch, cynhwysiant, ac amrywiaeth.
- Y gallu i feddwl yn strategol.
- Profiad o arweinyddiaeth ariannol yn dangos cyfrifoldeb am arwain, llywio neu gyfrannu at strategaeth ariannol, stiwardiaeth a llywodraethiant y sefydliad.
- Profiad o sganio'r gorwel ariannol a chynllunio hirdymor er mwyn cefnogi gwneud penderfyniadau.
- Y gallu i ddarparu mewnwelediad ariannol er mwyn llywio penderfyniadau buddsoddi a fydd yn cefnogi twf cynaliadwy a chreu gwerth.
- Y gallu i gyfathrebu gwybodaeth ariannol yn glir ac yn gryno i randdeiliaid anariannol.

**Dymunol**

- Profiad o arweinyddiaeth mewn sefydliadau yn mynd drwy drawsnewidiad neu gydweithio aml-bartner.
- Dealltwriaeth o gomisiynu, modelau buddsoddi partneriaethau, neu drefniadau ariannol traws-sector.
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus a chymwysterau sy'n berthnasol i'r rôl.
- Dealltwriaeth o Bartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol a'u potensial.
- Y gallu i siarad / cyfathrebu yn Gymraeg.

**Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant**

Rydym yn gwerthfawrogi ac yn dathlu amrywiaeth yn ei holl ffurfiau ac rydym wedi ymrwymo i greu gweithle cynhwysol lle gall pawb ffynnu.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir, yn enwedig pobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Rydym yn annog ceisiadau gan bobl sy'n dod â phrofiad personol ac yn gwerthfawrogi'r mewnwelediad y mae hyn yn ei gynnig.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein proses recriwtio yn gynhwysol ac yn hygyrch. Anogir ymgeiswyr sydd angen addasiadau ar unrhyw adeg i roi gwybod i ni fel bod modd gwneud trefniadau priodol.

© Acorn by Synergie

# Gwybodaeth Bellach

**Ymrwymiad Amser**

Yr ymrwymiad amser a amcangyfrifir ar hyn o bryd yw 0.5 – 1.0 diwrnod y mis.

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd bob dau fis ac fel arfer byddant yn para am 2 awr (ynghyd ag amser paratoi). Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd wyneb yn wyneb ac mae opsiwn i gael mynediad o bell.

Gall Cyfarwyddwyr Anweithredol gael eu penodi i is-bwyllgorau hefyd ac mae'n bosibl y byddant yn cael gwahoddiad i fynd i gyfarfodydd ad hoc a chynrychioli PACD mewn digwyddiadau, lle bo hynny'n briodol.

**Cyfnod**

Y cyfnod yn y swydd yw 3 blynedd. Ni chaiff unrhyw Gyfarwyddwr Anweithredol wasanaethu am fwy na dau gyfnod olynol o 3 blynedd yn y swydd.

**Cydnabyddiaeth**

Gwirfoddol. Telir costau teithio a chynhaliaeth ar ein cyfraddau safonol yn unol â'n Polisi Teithio a Chynhaliaeth.

**Dysgu a Datblygu**

Gwahoddir Cyfarwyddwyr Anweithredol i asesu eu hanghenion dysgu a datblygu yn flynyddol. Darperir rhaglen gynefino; rhennir manylion y rhaglen cyn eich cyfarfod cyntaf.



© Acorn by Synergie

# Proses Recriwtio



Os hoffech chi drafod y rôl cyn cyflwyno cais, cysylltwch â Luke Robért i ddechrau, a fydd yn fwy na pharod i helpu

**Luke Robért**

luke.robert@acornbysynergie.com
07551 353 260

## Hysbysiad Preifatrwydd

Drwy gyflwyno eich cais, rydych yn cytuno y caiff Acorn by Synergie brosesu eich data personol at ddibenion recriwtio. Rydym wedi ymrwymo i gydnabod pob cais ac rydym yn edrych ymlaen at ystyried eich cais chi.

Diolch am ddangos diddordeb mewn cyfrannu tuag at lwyddiant Partneriaeth Actif Canolbarth y De. Pob lwc â'ch cais.

## Gwnewch gais ar-lein a bydd ymgynghorydd o Acorn mewn cysylltiad i ddweud mwy wrthych chi ac i drafod y camau nesaf.

## Cofiwch, fel rhan o'ch cais, bydd gofyn i chi ddarparu'r canlynol:

1. CV wedi'i ddiweddaru
2. Datganiad ategol (dim mwy nag un dudalen) yn amlinellu pam rydych yn dymuno ymuno â'r bartneriaeth a pham rydych yn ymgeisydd credadwy, gan gyfeirio at fanyleb y person.

**Dyddiadau allweddol**

Dyddiad Cau: Hanner nos 11 Mawrth 2026.

**Dyddiad Cyfweld:**

1 Ebrill 2026